


**Codwyd y garreg bigfain i gofio am Waldo Goronwy Williams, y bardd, y gwladgarwr, yr heddychwr a'r Crynwr. Treuliodd bedair blynedd o'i blentyndod yn y fro.**

**Dyma lle dysgodd Gymraeg. Dywedodd rhywun iddi gymryd dwy fil o flynyddoedd o wareiddiad Cymraeg i greu person fel Waldo. Barnai un arall nad oedd bob amser yn perthyn i'r byd hwn. Perthynai iddo nodweddion sant. Deil ei gyfrol o farddoniaeth *Dail Pren* i ysbrydoli.**

**Codwyd y ddwy linell a ddyfynnir o'r gerdd 'Preseli' - cerdd a fu'n allweddol yn y frwydr i gadw'r llechweddau hyn yn rhydd o filitariaeth.**



**The standing stone commemorates Waldo Goronwy Williams, the poet, patriot, pacifist and Quaker. He spent four years of his childhood in the neighbourhood.**

**This is where he learnt Welsh. Someone said it had taken two thousand years of Welsh civilization to create a person such as Waldo. Someone else said that he was not always of this world. He possessed the attributes of a saint. His single volume of poetry *Dail Pren***

**continues to inspire. The two lines quoted are from his poem 'Preseli' - a poem that played a prominent part in the battle to keep these hillsides free of militarism.**